

Cyngor Cymuned Llanelian (323)

Cofnodion cyfarfod Mehefin 2 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Ian Evans, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Hefina Williams, Arfon Morgan, Carli Evans Thau (Clerc), Cyng. Aled Jones,

Ymddiheuriadau: Thomas Jones, Cyng. Richard Griffiths

Yn absennol: Cyng. Richard Jones

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Cadarnhawyd bydd y cyfarfod yn cymryd yr un ffurf a'r cyfarfod diwethaf. Croesawyd Arfon Morgan i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Cyngor.

2 Datgan Diddordeb

Helen Hughes – Llwybr Lletroed i'r Mynydd

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd y cofnodion. Cynnig Carol Whitaker, eilio Glenys Jones.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Llifogydd – cafwyd gadarnhad gan Steven Jones bydd y gwaith o drin y gullies ger Dinorben Terrace a'r tyllau yn y lon ger Stad Dublin yn y pythefnos nesaf.

4.2 Clawr Manhole – cadarnhawyd bod y gwaith wedi ei gwblhau erbyn hyn.

4.3 Tir ger Stad Dublin – dim diweddariad am y blerwch tu cefn i'r stad hyd yma.

5 Diweddariadau

5.1 Caeau Chwarae –

5.1.1 Cyffredinol - cafwyd wybod bod cwynion am gwn ym Maes Llwyfo wedi ei ddatrys heb ymyraeth y cyngor. Cafwyd wybod bod gwaith i drin a thrwsio'r gysgodfan ym Maes Llwyfo ar y gweill. Cytuno bod angen arwydd yn dynodi enw Maes Llwyfo i'w arddangos ar y ffens gyda'r arwydd bresennol sy'n datgan pwy sy'n gyfrifol o'r cae chwarae. Cytuno nad oedd y placiau yn addas ar gyfer y meinciau a bod angen chwilio am rai eraill llai eu maint. CT

5.1.2 Torri Gwair – cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a'r contractiwr torri gwair wedi'r cyfarfod diwethaf a bod camddealltwriaeth wedi bod yn y ddogfen dendro. Wedi gofyn am ganllaw gan Un Llais Cymru a chadarnhau gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, ysgrifennwyd at y contractiwr i ddiddymu'r cytundeb ar sail y camgymeriad. Bu wedyn estyn gwahoddiad i'r contractwyr oedd wedi dangos diddordeb yn wreiddiol i ail gyflwyno eu prisiau am y gwaith yn ei gyfanrwydd.

Derbyniwyd tri tendr am y gwaith gydag un contractiwr yn peidio a chyflwyno y tro hwn. Agorwyd yr amleni yn y cyfarfod a trafodwyd yr hyn oedd wedi ei gyflwyno. Cytuno yn unfrydol derbyn pris D Holdsworth Coastal Grass Cutting. Y clerc i ysgrifennu at y contractwyr i gadarnhau penderfyniad y Cyngor a diolch iddynt am ddangos diddordeb yn y gwaith. CT

5.2 Llithrfa – cafwyd datganiad gan CSYM yn cadarnhau bod y llithrfa yn parhau ar gau dros wyl y banc, nid oes diweddariad pellach wedi hyn.

5.3 Mynwent –

5.3.1 Cyffredinol – cafwyd wybod bod y giat wedi ei gwblhau ac wedi mynd i'w drin cyn ei osod. Cytuno dylai'r hen giatau gael eu gosod tu fewn i wal y fynwent a symud y biniau oddi yno. Bydd angen trefni gosod plac i gydnabod cyfraniad Mrs Mair Morris (Cronfa TMI). Cytuno bydd gofyn am gyfarniad gan yr Eglwys tuag at gost terfynnol y giat newydd.

5.3.2 Derbyn prisiau am y gwaith ychwanegol – dau bris sydd wedi eu derbyn am y gwaith. Nodwyd nad oedd posib i'r gwaith gychwyn nes diwedd yr haf gan fod adar yn nythu. Wedi peth trafodaeth cytuno byddai pwyllgor y fynwent yn cwrdd yn ffurfiol ar y safle ac yn dylunio cynllun pwrpasol. Bydd wedyn posib cwrdd ar y safle gyda'r contractwyr sydd wedi dangos diddordeb i gadarnhau'r gwaith sydd ei angen. Cynnig Ian Evans, eilio Dafydd Griffiths.

5.4 Cyllid a Pholisi – dim wedi cyfarfod

5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985) – dim diweddariad

5.6 Pwyllgorau Allannol – dim cyfarfodydd

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau –

Daw tri cais at sylw'r aelodau ers y cyfarfod diwethaf:

- Hen Blas (HHP/2020/135) – dim gwrthwynebiad

- Fferm Wynt Trysglwyn (SCO/2020/3) – dim gwrthwynebiad

- Gadfa Newydd (FPL/2020/80) – dryswch bod dwy linell goch wedi eu marcio ar y cynllun. Dim gwrthwynebiad ymestyn yr ardd hyd terfyn y bocs hirsgwar coch. Nodwyd bod y garafan wedi ei leoli o fewn y bocs yma. Nodwyd pryder am ddefnydd y garafan.

CT

6.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:

- Perthi (HHP/2020/50) - caniatad

6.3 Gorfodaeth - daw diweddariad gan y swyddog gorfodaeth ynglyn a'r achosion. Nodwyd bod cais cynllunio wedi ei dderbyn ar gyfer Gadfa Newydd (uchod). Gofynnwyd os oedd angen caniatad cynllunio ar gyfer datblygu cyfres o byllau, bod y fath datblygiad wedi cymryd lle ger y llwybr arfordir. Dafydd Griffiths i anfon cynllun a lluniau i'w hafnon ymlaen at CSYM. Roedd y mater wedi ei godi gyda CSYM rhai misoedd yn ol ond nid oedd digon o swyddogion i ymchwilio ar y pryd.

DG
CT

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£293.46 Carli Evans Thau (cyflog Mai)

£200.00 Alun Foulkes (archwiliad 2018/19 a 2019/20)

7.2 Ceisiadau am Arian

Cyflwynwyd tri cais am gefnogaeth:

- Tarian Cymru (offer amddiffyn) – cytuno peidio a chefnogi gan eu bod yn fudiad cenedlaethol ac y teimlai'r aelodau mai llywodraeth ganolig dylai fod yn gyfrifol am ddarparu offer diogelwch. Cynnig Ian Evans, eilio Carol Whitaker.

- Tenovus Cymru (cyffredinol) – cytuno yn unfrydol peidio a chefnogi gan eu bod yn fudiad cenedlaethol.

- Caru Amlwch (cystadleuaeth tyfu blodau haul) yn dilyn diddordeb mewn cystadleuaeth i ddisgyblion Ysgol Amlwch, mae'r grwp yn bwriadu cynnal cystadleuaeth tebyg i ddisgyblion Ysgol Penysarn a'r Cylch Meithrin. Cytuno yn unfrydol cyfrannu £50 tuag at y prosiect.

CT

7.3 Archwiliad 2019/20

Cadarnhawyd bod yr archwiliad mewnol wedi ei gwblhau erbyn hyn. Nododd y clerc ei bod wedi anfon copi o'r adroddiad at yr aelodau ynghyd a'r adroddiad blynyddol i'r archwiliwr allannol. Gan nad oedd pob aelod wedi cael cyfle i edrych ar y dogfennau, cytuno cynnal cyfarfod nos Fawrth Mehefin 9 am 7 o'r gloch gydag un eitem yn unig ar yr agenda sef cymeradwyo'r dogfennau i'w hafnon at yr archwiliwr allannol.

CT

8 Iechyd a Diogelwch

Daw cwynion am ddiogelwch y llwybr o Lon Tyddyn Waen hyd y Mynydd (Llwybr Cadi

Rondo) oherwydd y gwartheg sydd yn y cae. Mae'r ffermwr wedi tynu'r ffens a'r cloddiau oedd yn diogelu'r llwybr er peth amser. Deallwyd gan swyddog tramwy CSYM eu bod wedi darparu'r giatau i'r ffermwr ail osod y ffens ers dwy flynedd, a'i fod wedi cadarnhau bydd y gwaith wedi ei gwblhau dros yr haf. Nodwyd bod angen cadarnhad gan CSYM beth oedd eu bwriad i ffensio'r llwybr. Pan fu derbyn gant gan Menter Mon rhai blynyddoedd yn ol roedd y llwybr wedi ei ffensio ar y ddau ochr a croesfan i'r gwartheg gael mynd o un cael i'r llall.

CT

Cytuno bod angen gwirio gyda'r swyddog tramwy pa gytundeb oedd gyda'r tiffeddianwr ynglyn a ffensio'r llwybr. Roedd pryderon am orfodi ffermwr i ffensio ei eiddo ar gyfer defnydd y cyhoedd yn unig, nid priffordd yw hon ond llwybr a hawliau tramwy yn unig. Efallai bod budd i'r ffermwyr ffensio y fath lwybrau er mwyn diogelu eu stoc ond mater i'r fferwyr yw hynnu nid mater gorfodaeth tramwy.

9 Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru am Gyllid ar gyfer Gwella Trafnidiaeth

Esboniwyd bod cynllun ar y gweill gan llywodraeth Cymru i ryddhau arian tuag at welliannau trafndiaeth. Nid oedd gwahoddiad uniongyrchol i'r Cyngor Cymuned ymateb ond roedd Dafydd Griffiths wedi tynnu sylw at y mater ac wedi ymateb fel unigolyn. Roedd y clerc hfeyd wedi ymateb gyda phwyntia perthnasol o'r hyn oedd wedi ei drafod ynglyn ag materion priffyrdd yn y gorffennol. Cadarnhaodd Dafydd Griffiths ei fod wedi anfon ei ymateb i'r aelodau er gwybodaeth ac fe rhoddwyd grynodedb o'r ddogfen.

Wedi peth trafod am wahanol gynlluniau posib, cytuno gofyn i CSYM faint fyddai'r gost am y gwelliannau mae'r cyngor cymuned am ei weld (20mya, system unffordd posib) a cadarnhad os oes unrhyw arian ar gael. Cynnig Dafydd Griffiths, eilio Ian Evans.

CT

10 Gohebiaeth

10.1 Cadarnhawyd bod gwybodaeth a ddaw gan CSYM am wahanol wasanaethau a diweddariadau am y sefyllfa Covid-19 yn cael eu hafnon drwy ebost i'r aelodau yn syth.

10.2 Daw copi gan Gwyn Roberts o lythyr y mae wedi ei anfon at CSYM ynglyn a lwybr Cadi Rondo (gweler iechydd a diogelwch uchod). Y clerc i gysylltu a Mr Roberts i gadarnhau ei fod yn fodlon i'r llythyr gael ei rannu gyda'r aelodau.

CT

11 Unrhyw Fater Arall

11.1 Daw cwynion am 'campervan' enfawr sydd wedi ei barcio ger Capel Carmel, nodwyd nad yw wedi ei barcio yn anghyfreithlon tra ei fod wedi ei drethu a'i yswirio. Nid yw yn atal bysiau rhag mynd drwy'r pentref. Mae pob hawl ganddo fod wedi ei barcio ar y lon.

11.2 Llwybrau cyhoeddus – cafwyd wybod am lwybrau oedd angen sylw cynnal a chadw.

CT

11.3 Safle bws – nodwyd bod y safle bws ger Ardwyn wedi ei baentio erbyn hyn, fodd bynnag mae car yn parhau i barcio ar y gyffordd. Nodwyd byddai llinellau melyn yn cael eu paentio yma petai'r pentref yn system un ffordd. Cytuno cysylltu a'r heddlu i wneud ymholiadau.

CT

11.4 Zoom – cytuno yn unfrydol talu am drwydded i ddefnyddio'r meddalwedd. Byddai posib rhannu'r gost gyda Cyngor Cymuned Llanbadrig.

CT

11.5 Soniwyd am y posibilrwydd o gynnal cystadleuaeth bwgan brain yn y pentref. Y Cadeirydd i gael mwy o wybodaeth.

EH

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Gorffennaf 14, 2020 am 7 o'r gloch
Bu'r cyfarfod orffen am 21.00

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd